Swansea University Prifysgol Abertawe | Student Life Bywyd Myfyrwyr

Chwilio: CampusLifeSU

Rhifyn y Gwanwyn 2025 | Tudalen 1

# GO!News


| Discover - Enrich - Connect |

## Annwyl Ddarllenydd

Croeso i'n Rhifyn y Gwanwyn 2025! Gobeithiwn eich bod wedi cael amser gwych yn Abertawe hyd yn hyn! Gyda'r dyddiau'n ymestyn a'r haul yn dechrau disgleirio erbyn hyn, gobeithiwn y gallwch fwynhau'r traethau niferus a'r lleoedd awyr agored prydferth eraill sydd gan Abertawe i'w cynnig! Cymrwch gip ar ein hadran 5 peth i'w gwneud yn y Gwanwyn er mwyn cael syniad am beth i'w wneud! Dylai'r cylchlythyr hwn eich helpu i gael mwy o wybodaeth am y mathau o ddigwyddiadau rydym yn eu cynnig, ein cynllun gwirfoddoli sydd ar gael a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig! Mae ein gweithgareddau hefyd yn cael eu cynnal ar draws y flwyddyn gyda theithiau i ddinasoedd amrywiol yn y DU, nosweithiau ffilm, digwyddiadau cymdeithasol a mwy! Os oes gennych awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau, anfonwch e-bost i gosocial@abertawe.ac.uk - rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch syniadau'n fawr!

*Emma, Fiona, Abbie, Nick, Nic, Mike, Caroline, Beth*

International@CampusLife



## Rhyngwladol@BywydCampws

### Yma i helpu

**Mae tîm Rhyngwladol@BywydCampws yma i helpu a chefnogi myfyrwyr rhyngwladol gydag ymholiadau academaidd ac anacademaidd.Yn benodol, gallwn ni helpu gyda fisâu a mewnfudo, cwestiynau am deuluoedd rhyngwladol ac agweddau diwylliannol ar fyw yn y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol a meithrin cymuned drwy ein rhaglen GO!**

**Cofiwch - rydyn ni yma i'ch cefnogi! Ewch i'n gwefan i archwilio ein tudalennau cyngor ac arweiniad, yn ogystal â manylion am sut gallwch chi gysylltu â ni drwy e-bost, Sgwrs Fyw, gweminarau ar bynciau penodol, neu weithgareddau ar-lein eraill: www.swansea.ac.uk/international-campuslife/**

**Hefyd mae gennym gyfrif Instagram lle gallwch ein tagio ni a phan fyddwch chi'n mynd i'n digwyddiadau, cadwch lygad am luniau o'n myfyrwyr yn mwynhau Prifysgol Abertawe! https://www.instagram.com/campuslifesu/**

## Beth sy'n digwydd?

Bydd ein rhaglen gymdeithasol yn llawn gweithgareddau cyffrous i wneud eich gwanwyn yn fwy pleserus byth! Dyma restr o ychydig o'n digwyddiadau sydd ar ddod:

- 7 Mawrth - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- 13 Mawrth - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Holi
- 14 Mawrth - Ffilm GO!: The Hot Chick
- 17 Mawrth - Diwrnod Sant Padrig
- 18 Mawrth - Bwyta GO!: Awa
- 21 Mawrth - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Diwrnod Barddoniaeth y Byd
- 28 Mawrth - Ffilm GO!: School of Rock
- 1 Ebrill - Bwyta GO!: Raj Kitchen
- 2 Ebrill - Taith Gerdded: Archwilio Abertawe
- 10 Ebrill 2024 - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Cwrdd a Chymdeithasu - Sain Ffagan
- 11 Ebrill - Ffilm GO!: The Hunger Games
- 14 Ebrill - Taith GO!: Sain Ffagan
- 15 Ebrill - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Diwrnod Celf y Byd
- 16 Ebrill - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Get Cracking
- 17 Ebrill - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Helfa Drysor
- 25 Ebrill - Ffilm GO!: St Trinian's
- 30 Ebrill - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Bowlio a Treatz

Mae gennyn ni ddigwyddiadau i bawb eu mwynhau felly porwch ein gwefan tocynnau digwyddiad i weld rhestr lawn o'n digwyddiadau. Gellir cadw lle ar y rhain i gyd yn: https://university-swansea.native.fm/group/5010/international-campus-life

## Cipolwg yn ôl ar Raglen GO!



### Taith GO!: Birmingham

Ein teithiau GO! i ddinasoedd mawr y DU yw digwyddiadau mwyaf poblogaidd Rhyngwladol@BywydCampws bob amser. Y tro hwn, aethon ni i ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Leuadol yn Birmingham!

"Ymweld â'r 'China Town' oedd yr uchafbwynt. Yr holl berfformiadau a'r tân gwyllt"

**"Hefyd, roedd y tân gwyllt ar ddiwedd y dydd yn ANHYGOEL!"**

"roedd yr eglwysi a'r eglwysi cadeiriol yn hardd"

# Cwrdd â'r Tîm GO!

**Ym mhob rhifyn, byddwn ni'n cwrdd ag aelod arall o dîm GO!**



Eich enw: Esmaralda Joseph

Eich cwrs: MSc Niwrowyddoniaeth Wybyddol

Eich cenedligrwydd: Indiaidd

Pam dewisoch chi astudio ym Mhrifysgol Abertawe?
A bod yn onest, roedd cael campws ger y traeth yn un o'r rhesymau! Mae Abertawe hefyd yn cynnig cyrsiau unigryw ac mae'r profiad ymarferol a gynigir yn dda.

Pam penderfynoch chi wirfoddoli fel aelod o dîm GO!?
Rwy'n gwirfoddoli gyda Discovery, a thrwy hynny cefais y cyfle i fod yn nhîm GO!. Rwy'n hoffi cwrdd â phobl newydd a threfnu digwyddiadau hwylus, felly roedd bod yn aelod o dîm GO! yn gyfle gwych ar gyfer hynny.

Yn eich barn chi, beth yw eich prif ddyletswydd fel aelod o dîm GO!?
Rwy'n hwyluso cymdeithasoli ymhlith y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau. Weithiau, gall myfyrwyr fod ychydig yn swil neu'n ansicr sut i ddechrau sgwrs, felly rwy'n siarad am ychydig ac yn eu hannog nhw i wneud yr un fath, yn broffesiynol, wrth gwrs. Mae'n wych gweld pobl yn gwneud ffrindiau newydd.

Pa rinweddau sydd gan aelod da o dîm GO!?
Mae bod yn gyfeillgar, yn agos-atoch, yn optimistaidd ac yn llawn gwybodaeth ac yn drefnus yn bwysig. Ond mae meddu ar agwedd gadarnhaol a gwneud eich gorau yn bwysicach.

Beth yw'r peth gorau am fod yn aelod o dîm GO! hyd yn hyn?
Mae'r cyfle i fynd ar deithiau'n wych! Mae cwrdd â chynifer o fyfyrwyr o bob cwr o'r byd a chael y cyfle i gymdeithasu a bod yn ffrindiau â nhw yn fonws.

Pam rydych chi'n meddwl y dylai myfyrwyr eraill gyflwyno cais i ymuno â thîm GO!?
Mae'n rôl arbennig os ydych eisiau datblygu eich sgiliau trefnu, cyfathrebu a bod yn ddyfeisgar. Yn ogystal, mae'n lle gwych i wella eich sgiliau trin pobl ac mae'n rhywbeth da i'w ychwanegu at eich CV.

# Rhaglen Wirfoddoli Tîm GO!

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gwrdd â phobl, meithrin sgiliau cyflogadwyedd a chymryd rhan yn y gymuned.
Os hoffech wirfoddoli fel aelod o dîm GO!, ac am ragor o wybodaeth, cofrestrwch am gyfrif Discovery a chofrestrwch i fod yn Wirfoddolwr tîm GO! yma:
https://volunteering.discoverysvs.org/volunteers/opportunity/10193151
neu e-bostiwch gosocial@swansea.ac.uk.



# GO!Bwyta | Cost £10 (fel arfer)

Ers iddynt ddechrau ychydig flynyddoedd yn ôl, mae nosweithiau GO!Bwyta wedi dod yn fwyfwy poblogaidd - mae myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r DU wedi ymweld â bwyty gwahanol yn Abertawe bob mis i fwynhau bwyd o bob cwr o'r byd a chwrdd â ffrindiau newydd hefyd! Bydd y bwyty fel arfer yn darparu bwydlen osod am £10 ac mae bob amser digon o fwyd! Caiff nosweithiau GO!Bwyta eu hysbysebu ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac mae tocynnau ar werth yn:
https://university-swansea.native.fm/group/5010/international-campus-life



## 5 peth hwyl i'w gwneud yn y Gwanwyn:

- Mae Parc Brynmill yn barc o Oes Fictoria, sydd wedi ei gynnal a'i gadw'n ofalus, lle gallwch grwydro o gwmpas a bwydo'r hwyaid a'r adar gwyllt eraill.
- Mwynhewch hudoliaeth Gerddi Clun a chadwch lygad am y bont Japaneaidd a'r Tŵr. Mae Gerddi Clun yn llawn rhywogaethau blodau a choed lliwgar a phrin.
- Beth am gael picnic yn un o barciau hardd Abertawe neu ar y traeth. Gallwch hefyd roi cynnig ar hedfan barcud neu chwarae pêl-droed.
- Rhowch gynnig ar golff mini neu ewch ar bedalo ym Mharc Singleton. Dyma ffordd wych o fwynhau prynhawn hyfryd o wanwyn tra'n anadlu awyr iach y gwanwyn.
- Efallai yr hoffech fynd am dro yng Nghoed Cwm Penllergare a chasglu blodau gwyllt i greu tusw o flodau neu eu gwasgu nhw. Fel hyn, bydd gennych atgofion o'r amser y gwnaethoch chi ei dreulio'n Abertawe.

hapus
The Student Life Toolkit
Pecyn Cymorth Bywyd Myfyrwyr

Mae Hapus yn gwrs ar-lein sy'n eich paratoi ar gyfer heriau meddyliol, emosiynol ac ymarferol yn y brifysgol. Mae'n rhoi i chi'r wybodaeth a'r adnoddau i ymdopi â phethau fel gorbryder, rheoli eich arian a hwyliau isel. Gallwch gael mynediad at y cwrs drwy eich cyfrif Canvas.
Mae ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Arabeg a Tsieineëg.